# Ombwdsmon Cyfreithiol –

# rydyn ni yma os ydych chi ein hangen ni

Gobeithiwn y byddwch yn derbyn gwasanaeth da gan y darparwr gwasanaeth cyfreithiol yr ydych wedi'i ddewis.

Yn yr Ombwdsmon Cyfreithiol, rydyn ni yma i helpu os ydych wedi cwyno am y gwasanaeth a gawsoch ac nad ydych yn hapus ag ymateb neu ddiffyg ymateb y darparwr.

Rydym yn gwbl annibynnol a gallwch ein defnyddio'n ddi-dâl. Byddwn yn ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd ac yn rhoi gwybod i chi beth yw'r ffordd orau ymlaen yn ein barn ni.

Bydd angen i chi gysylltu â ni o fewn **1 flwyddyn** i'r mater yr ydych yn cwyno amdano neu, os oedd yn hirach yn ôl, o fewn blwyddyn i chi ddod i wybod am y mater. Gellir ymestyn y terfynau amser hyn mewn rhai amgylchiadau.

**Cofiwch, mae angen i chi gwyno i'ch darparwr gwasanaeth yn gyntaf.** Mae ganddyn nhw **8 wythnos** i ddatrys eich cwyn. Os nad ydych yn fodlon ar sut y maent yn datrys pethau, dylech ddod â'ch cwyn atom o fewn **6 mis** i'w hymateb terfynol.

I gael tawelwch meddwl, cewch ragor o wybodaeth am sut rydym yn gweithio drwy ymweld â ni yn www.legalombudsman.org.uk.


Ffoniwch ni ar **0300 555 0333**

BT NGT Lite **18001 0300 555 0333**

Ysgrifennwch atom **Ombwdsmon Cyfreithiol, Blwch Post 6167**

**SLOUGH, SL1 0EH**